# SL(6)604 – Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Roedd Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024 (**Rheoliadau 2024**) yn diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (**Rheoliadau 2006**) er mwyn galluogi'r awdurdodau cymwys sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol i adennill costau yr eir iddynt wrth gynnal archwiliadau a rheolaethau mewn perthynas â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Roedd Rheoliadau 2024 hefyd yn diwygio Rheoliadau 2006 drwy ddiwygio'r ffioedd sydd i'w talu mewn cysylltiad â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Fodd bynnag, roedd gwall yn y ffioedd a nodir yn Rheoliadau 2024.

Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025 (**Rheoliadau 2025**) yn cywiro'r gwall hwnnw – mae Rheoliadau 2025 yn mewnosod y ffi cywir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2006, gan ddiwygio'r taliad sydd i'w adennill am gadw gwyliadwriaeth o weddillion Soliped[1] o £0.04287 y carcas i £0.4287 y carcas.

Fodd bynnag, roedd gwall yn y dyddiad cychwyn yn nhestun Cymraeg Rheoliadau 2025.

Roedd Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025 (**Rheoliadau Newydd 2025**) yn dirymu Rheoliadau 2025 ac yn nodi'n gywir y gyfraith ynghylch y taliad am wyliadwriaeth gweddillion a'r dyddiad cychwyn.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

[1]Mae anifeiliaid carngaled (Solipeds) yn anifeiliaid un carn anholltog ar bob troed; er enghraifft, ceffylau, asynnod, mulod a bastardiaid mulod.

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn y torrwyd y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a’r eglurhad am dorri’r confensiwn a gynigiodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, mewn llythyr at y Llywydd ar 21 Mawrth 2025.

Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y llythyr:

> *Gwnaed Rheoliadau 2025 i ddiwygio gwall drafftio yn Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024. Bydd y Rheoliadau 2025 newydd yn cyflwyno'r un diwygiad a amlinellwyd, gan gynnwys rheoliad ychwanegol i ddirymu'r fersiwn wreiddiol wallus.*
>
> *Mae'n hanfodol bod y Rheoliadau 2025 newydd yn dod i rym cyn Rheoliadau 2025, er mwyn i Reoliadau 2025 gael eu dirymu cyn iddynt ddod i rym ar 28 Mawrth 2025*.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.